

PorthSgiliau

Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

Pecyn Cymorth Cenedlaethol Cymru Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015 Crynodeb a chasgliadau

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ymestyn ac ehangu'r defnydd o Wybodaeth am y Farchnad Lafur ar draws Cymru. Ewch i'n gwefan:
<https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/cudd-wybodaeth-am-y-farchnad-lafur>

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr neu Brosiect Gwybodaeth am y Farchnad Lafur Llywodraeth Cymru, cysylltwch â LMI@llyw.cymru

Dyddiad: Mai 2016



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn Cymorth Cenedlaethol Cymru Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015 Crynodeb a chasgliadau

Mae Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015 yn cyflwyno canlyniadau arolwg o 91,210 o sefydliadau o bob cwr o'r Deyrnas Unedig; o'r rhain, roedd 6,027 yng Nghymru. Roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar y canlynol: y galw ymysg cyflogwyr am lafur, prinder a diffyg sgiliau, lefelau buddsoddi mewn hyfforddiant, a datblygu'r gweithlu.

Mae'r isod yn seiliedig ar Becyn Cymorth Cenedlaethol Cymru. Cyhoeddwyd Adroddiad ar gyfer y Deyrnas Unedig ym mis Ionawr 2016 – ynddo darparwyd canlyniadau lefel uchel ar gyfer Cymru. Caiff Adroddiad ar gyfer Cymru ar Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015 ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2016. Bydd yn darparu dadansoddiad manylach o ganlyniadau Cymru. Bydd yn dadansoddi'r canlyniadau fesul sector, galwedigaeth, rhanbarth, a maint sefydliadau. Hefyd, bydd yn rhoi'r canlyniadau yn eu cyd-destun.

Swyddi gwag yn sgil diffyg sgiliau, a recriwtio

Mae lefelau swyddi gwag wedi codi'n sylweddol; o 26,000 o swyddi gwag adeg arolwg 2013 i 36,000 yn 2015. Mae hyn yn adlewyrchu'r galw mawr sydd am lafur, yn ogystal â'r datblygiadau cadarnhaol yn economi Cymru.

Roedd bron chwarter (24 y cant) o'r swyddi gwag hyn yn swyddi gwag yn sgil diffyg sgiliau (hynny yw, swyddi sy'n anodd eu llenwi gan nad yw'r ymgeiswyr yn meddu ar y sgiliau, cymwysterau neu'r profiad angenrheidiol).

Yn y meysydd adeiladu, trafniadaeth a chyfathrebiadau yr oedd y gyfran fwyaf o swyddi gwag a oedd yn swyddi gwag yn sgil diffyg sgiliau. O ran galwedigaethau, roedd y gyfran fwyaf ym maes y crefftau medrus a gweithredwyr peiriannau.

'Sgiliau a gwybodaeth arbenigol' oedd fwyaf tebygol o fod yn brin ymhlith ymgeiswyr, ac yna 'y gallu i reoli eu hamser eu hunain a blaenoriaethu tasgau'.

Yr Heriau Sgiliau Mewnol

Mae lefel y bylchau sgiliau ymhlith staff cyfredol wedi cwmpo ychydig ers 2013 i 54,000 o gyflogeion (sef 4.5 y cant o'r gweithlu; mae hyn i lawr o 5.8 y cant yn 2013).

Gweithgynhyrchu oedd â'r gyfran uchaf o staff â bylchau sgiliau (8.8 y cant) a'r nifer mwyaf o fylchau sgiliau (11,700). Roedd bylchau sgiliau yn fwyaf tebygol mewn galwedigaethau llafur dwys, yn enwedig gweithredwyr peiriannau.

Ymhlith staff cyfredol, 'sgiliau a gwybodaeth arbenigol' oedd y sgiliau technegol neu ymarferol oedd fwyaf tebygol o fod yn brin.

Roedd galw amlwg hefyd am well sgiliau personol a sgiliau pobl, ac roedd sgiliau rheoli amser a blaenoriaethu tasgau'n brin ar draws y gweithlu.

Mae hyn yn awgrym fod rolau swyddi yn gynyddol gymhleth, ar draws y galwedigaethau i gyd, ac felly'n ei gwneud yn ofynnol i unigolion jyglo sawl math o waith ac amryw gyfrifoldebau.

Effeithiau'r materion sgiliau, a'r ymateb iddynt

Mae cyflogwyr yn ymateb drwy hyfforddiant. Mae mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o e-ddysgu, ond mae galw amlwg am hyfforddiant sydd wedi'i anelu'n fwy penodol at ofynion y gweithlu wrth iddo newid a datblygu o hyd.

Mae heriau sgiliau'n effeithio ar lwyddiant tymor byr a thymor hir busnesau ac mae goblygiadau amlwg i gynhyrchiant busnesau a'u gallu i dyfu. Mae cyflogwyr, ar y cyfan, yn cydnabod bod llwyth gwaith a phwysau gwaith ar rai aelodau o staff wedi cynyddu o ganlyniad i brinder sgiliau yn y farchnad a'r gweithle (84 y cant a 54 y cant, yn eu trefn).

Mae arloesi'n ffactor allweddol o ran rhoi hwb i gynhyrchiant, ond mae'r heriau sgiliau sy'n wynebu cyflogwyr, yn enwedig o ran methiant staff i ddatrys problemau cymhleth, yn awgrymu bod diffyg yn hyn o beth.

Gall hyfforddiant priodol helpu i leddfau effeithiau o'r fath, ond mae lefelau hyfforddiant wedi aros yn weddol llonydd ers 2013 (darparwyd hyfforddiant gan 63 y cant o gyflogwyr), a hyn er gwaetha'r ffaith fod yr economi'n fwy iach. Fodd bynnag, mae cyfran y staff sy'n derbyn hyfforddiant yng Nghymru wedi cynyddu.

Mae ymgysylltu â chyflogwyr wrth ddatblygu hyfforddiant at y dyfodol yn hanfodol. Mae tua hanner y cyflogwyr sydd eisoes yn darparu hyfforddiant yn nodi yr hoffent gynnig mwy (49 y cant), ac yn nodi diffyg cyllid fel y rhwystr pennaf sy'n eu hatal rhag gwneud hynny, wedi hynny maent yn nodi na allant sbario digon o amser staff.

Y dyb oedd fod tua 89,000 o aelodau o staff â gormod o gymwysterau ar gyfer eu swyddi; y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd am hyn oedd nad oedd gan staff ddiddordeb mewn dringo i rôl uwch, yna nodwyd nad oedd digon o swyddi yr oedd pobl eu heisiau ar lefelau uwch, ac yna nodwyd addasrwydd oriau gwaith.

I gael rhagor o wybodaeth:

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr neu Brosiect Gwybodaeth am y Farchnad Lafur Llywodraeth Cymru, cysylltwch â LMI@llyw.cymru